# Strategaeth Cynaliadwyedd

## 2019/2020-2024/2025

**Sefydlwyd:** **Medi 2020**

**Diwygiedig Diwethaf:** **Y Pwyllgor Cynaliadwyedd Medi 2020**

# DIBEN

Mae Strategaeth Gynaliadwyedd y Brifysgol yn darparu fframwaith i gyd-fynd â'n huchelgeisiau a'n camau gweithredu mewn perthynas â chynaliadwyedd a datblygu cynaliadwy. Rydym yn cydnabod ein bod yn cael effaith amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Rydym hefyd yn cydnabod bod yn rhaid i ni fod yn gymydog da i'n cymunedau a chefnogi ein staff a'n myfyrwyr i fod yn ddinasyddion cyfrifol, byd-eang. Felly, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015), *byddwn yn gweithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.*

Ein gweledigaeth yw:

Datblygu diwylliant o stiwardiaeth amgylcheddol ymhlith ein staff, myfyrwyr, contractwyr, cyflenwyr a'n cymuned leol. Rydym wedi ymrwymo i wella ein system Rheoli Amgylcheddol (EMS) yn barhaus er mwyn bodloni gofynion ISO 14001:2015; ymgysylltu â staff, myfyrwyr, contractwyr, cyflenwyr a'r gymuned leol i newid ymddygiad.

Nodir y camau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth hon yn y mecanweithiau cyflawni sydd wedi'u cynnwys yn y strategaeth hon.

# CYD-DESTUN CYNLLUNIO

**Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

**Cydweithio i ddarparu Cymru iachach, hapusach a thecach. Helpu i greu Cymru yr ydym i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol drwy:**

- **Ymagwedd hirdymor** sy'n sicrhau bod y Brifysgol yn cymryd golwg tymor hirach i gydnabod yr angen i fynd i'r afael â lles cenedlaethau'r dyfodol
- **Atal** sef mynd i'r afael â gwraidd problemau, yn hytrach na mynd i'r afael â chanlyniadau'r problemau hyn yn hwyrach.
- **Integreiddio** wrthi ni gydnabod y gyd-berthynas sy'n bodoli rhwng canlyniadau ac effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.
- **Cydweithredu** wrth i ni gydnabod na ellir gweithredu llawer o’r ddatrysiadau i heriau cynaliadwyedd byd-eang a cenedlaethol heb gydweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau.
- **Cyfranogaeth** ac ymgysylltu gan ein bod yn deall pwysigrwydd cynnwys pobl yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

| Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br><br>Cynaliadwyedd |
| --- |
| **Tair Fesur o Lwyddiant**<br><br>**Trefnu cynaliadwyedd:** Byddwn yn ymgorffori diwylliant o gynaliadwyedd sydd wedi'i wreiddio yn ein meddwl a'n hymddygiad<br>**Grymuso cynaliadwyedd:** Byddwn yn meithrin y gallu i'n myfyrwyr, ein staff a'n cymunedau hyrwyddo cynaliadwyedd.<br>**Darparu cynaliadwyedd:** Byddwn yn gwneud cyfraniad rhagweithiol a chadarnhaol i gynaliadwyedd ein hamgylchedd, |

# Trefnu cynaliadwyedd

# Dull Strategol:

**Byddwn yn** ymgorffori diwylliant o gynaliadwyedd ar draws y sefydliad sy'n dangos ein hymrwymiad i egwyddorion datblygu cynaliadwy.

# Amcanion Strategol:

| **Beth rydym am ei gyflawni?** | |
|---|---|
| Diwylliant o gynaliadwyedd sydd wedi'i wreiddio yn ein meddwl a'n hymddygiad | |
| **Perchennog: PVC P&EE** | |
| **FE WNAWN NI...** | |
| Camau | Mecanweithiau cyflawni |
| Sicrhau bod atebolrwydd am gynaliadwyedd yn rhan annatod o strwythurau llywodraethu'r sefydliad | Y Pwyllgor Cynaliadwyedd/Bwrdd Rheoli/Bwrdd y Llywodraethwyr / Undebau Llafur /Undeb y Myfyrwyr |
| Sicrhau bod polisïau ac arferion y Brifysgol yn cael effaith gadarnhaol ar bob math o gynaliadwyedd | Cymryd Rhan/Strategaeth Rheoli Gwastraff/Cynllun Teithio/Polisi'r Gadwyn Gyflenwi Moesegol/Strategaeth Rheoli Carbon/Caffaeliad / Cynaliadwyedd / Polisi'r Amgylchedd a Chynaliadwyedd / Cynllun Bioamrywiaeth / Buddsoddi Moesegol / Polisi Masnach Deg / Polisïau bwyd a physgod cynaliadwy / Polisi Ynni / Dysgu ac Addysgu |
| Cymryd ymagwedd gadarn sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fesur a monitro cynaliadwyedd ym Met Caerdydd | ISO14001:2015/Pobl a'r Blaned/InSites/ y wefan/Munudau'r Pwyllgorau/Adroddiad Amgylchedd a Chynaladwyedd Blynyddol/ Adroddiad Llesiant |
| Dathlu cyflawniadau allweddol mewn cynaliadwyedd ar bob lefel | Gwobrau'r Is-Ganghellor/Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd/InSites/Gwobrau Met Caerdydd/ Adroddiad Llesiant / Llwyddiannau mewn gwobrau allanol / Gwefan y Brifysgol |
| Sicrhau negeseuon clir a chryno i'r gynulleidfa ar gynaliadwyedd | InSites/ Teledai / Cyfryngau Cymdeithasol/ Adroddiad Lles / Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd |
| Gweithio gyda chyflenwyr sydd â pholisïau amgylcheddol a chynaliadwyedd moesegol cadarn. | Polisi Cadwyni Cyflenwi Moesegol / Polisïau Caffael |

| | |
|---|---|
| Buddsoddi cyllid y brifysgol yn foesegol ac mewn meysydd sy'n hyrwyddo cynaliadwyedd | Polisi Buddsoddi Moesegol |
| Sicrhau bod digon o adnoddau'n cael eu neilltuo i fynd i'r afael â materion cynaliadwyedd | Y broses gyllidebu/ Pwyllgor Cynaladwyedd |
| Cyfleu llwyddiant ein gweithredoedd yn agored ac yn dryloyw | Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd/InSites/Wefan y Brifysgol/ Cyfryngau cymdeithasol/ Adroddiad Llesiant / Llwyddiannau mewn Gwobrau Allanol |

# Grymuso cynaliadwyedd

## Dull Strategol:

**Byddwn yn** sicrhau bod ein staff, ein myfyrwyr a'n cymunedau lleol yn gwerthfawrogi cynaliadwyedd ac yn cael eu grymuso i weithredu mewn modd cynaliadwy

## Amcanion Strategol:

| **Beth rydym am ei gyflawni?** | |
|---|---|
| Meithrin y gallu i'n myfyrwyr, ein staff a'n cymunedau hyrwyddo cynaliadwyedd. | |
| **Perchennog: PVC P&EE** | |
| **FE WNAWN NI...** | |
| Camau | Mecanweithiau cyflawni |
| Cryfhau ac ymestyn partneriaethau strategol allanol perthnasol i wella dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn ein myfyrwyr, ein staff a'n cymunedau allanol | Rhwydwaith Busnes yn y Gymuned Cymru; Cadwch Gymru'n Daclus; Caffi trwsio Cymru / Strategaethau Undeb y Myfyrwyr |
| Grymuso unigolion a grwpiau i hyrwyddo cynaliadwyedd o fewn a thu hwnt i'r sefydliad | Sefydlu/Datblygu staff/Budd-daliadau - sioeau teithiol/ Diwrnodau Cymunedol/Gweithdai Gwyrdd / Rhaglen Bywyd Res / Caffis Trwsio/ Hwb Cymunedol Cadwch Gymru'n Daclus / Sefydliad ail-lenwi / Strategaethau Undeb y Myfyrwyr |
| Gweithio gyda phartneriaid i gynnig rhaglen o weithgareddau arloesol sy'n annog cynaliadwyedd | Hwb Cymunedol Cadwch Gymru'n Daclus / Gwobr Met Caerdydd/ Caffi Trwsio Cymru, Sefydliad ail-lenwi / Strategaethau Undeb y Myfyrwyr |
| Integreiddio'r broses o ystyried cynaliadwyedd mewn prosesau sefydlu a datblygiad proffesiynol i staff a myfyrwyr. | Rhaglen sefydlu ar gyfer staff/myfyrwyr/*Leading Lights/* Darlithoedd gwesteion / Swyddog Amgylcheddol rhan amser Undeb y Myfyrwyr/ Prosiectau Byd Gwirioneddol / Strategaethau Undeb y Myfyrwyr |
| Darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn gwirfoddoli sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd a gweithgareddau allgyrsiol | Prosiectau'r Byd Gwirioneddol/Diwrnodau Cymunedol/ Gwobr Met Caerdydd /Archwilwyr Mewnol Myfyrwyr / EDGE / Datganiad HEAR / Cardiff Digs – Hyrwyddwyr Amgylcheddol / Strategaeth Undeb y Myfyrwyr |
| Ymgorffori datblygu cynaliadwy ac ymwybyddiaeth o faterion amgylcheddol yn ein cwricwla ym mhob Ysgol. | Cynlluniau ysgol/Fframwaith Cwricwlwm/ Strategaeth Asesu Dysgu ac Addysgu / Prosiectau Byd Gwirioneddol |

| | |
|---|---|
| Cynnal ymchwil sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth o gynaliadwyedd a gwelliannau iddo | Ysgolion/Academyddion/Cynlluniau Ymchwil/ |

# Darparu cynaliadwyedd

## Dull Strategol:

**Byddwn yn** gweithredu mewn modd sy'n cyd-fynd ag egwyddorion datblygu cynaliadwy ac yn lleihau unrhyw effaith negyddol yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

## Amcanion Strategol:

| **Beth rydym am ei gyflawni?** | |
|---|---|
| Gwneud cyfraniad rhagweithiol a chadarnhaol at gynaliadwyedd ei amgylcheddau. | |
| **Perchennog: PVC P&EE** | |
| **FE WNAWN NI...** | |
| Camau | Mecanweithiau cyflawni |
| Sicrhau bod datblygiadau campws yn dystiolaeth o'n hymrwymiad i gynaliadwyedd | Uwch-gynlluniau Campws/ Strategaeth Rheoli Carbon / Polisi Caffael / Strategaeth Rheoli Gwastraff / Bioamrywiaeth / Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd |
| Ymrwymo i fod yn carbon niwtral erbyn 2030 | Cynllun Rheoli Carbon/Polisi Teithio ar Fusnes/ Cynllun Teithio |
| Cynnal achrediad ISO140001:2015 | Fframwaith ISO14001:2015 /Pwyllgor Cynaliadwyedd/Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd / Polisi Amgylchedd a Chynaliadwyedd |
| Cael gradd dosbarth 1af ar gyfer Cynghrair Gwyrdd Pobl a'r Blaned | Cynghrair Gwyrdd Pobl a'r Blaned/Pwyllgor Cynaliadwyedd/<br>Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd |
| Lleihau faint o wastraff a gynhyrchwn | Strategaeth a Chynllun Rheoli Gwastraff/ISO14001:2015 / Bwyd / Caffael Cynaliadwy |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o'r angen am ailgylchu ac ailddefnyddio ymhlith staff, myfyrwyr a'n cymunedau | Strategaeth a Chynllun Rheoli Gwastraff/ Safle Ailddefnyddio / Prynu a Gwerthu / Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd/Diwrnodau Cymunedol/Caffi Trwsio |
| Lleihau ein defnydd o ddŵr ac ailgylchu ac ailddefnyddio lle bo modd | Cynllun Rheoli Carbon/ISO14001 : 2015 / Caffi Trwsio / Polisi Rheoli Ynni / Safle Ailddefnyddio / Safle Prynu a Gwerthu/ Caffi Trwsio / |
| Parhau i hyrwyddo dewisiadau amgen yn lle teithio mewn ceir, yn enwedig teithio mewn ceir ar eich ben eich hun | Cynllun teithio / Cynllun Prynu Beiciau / Diwrnodau Cymunedol / Caffi Trwsio / Mentrau ar Campus e.e. Next Bikes |

| | |
|---|---|
| Datblygu mecanweithiau ar gyfer lleihau ac all-osod teithio ar fusnes | Polisi Teithio Ar Fusnes/Cynllun Rheoli carbon / Cynllun Teithio |
| Arwain y sector o ran cynaliadwyedd gwasanaethau bwyd a lletygarwch | Bwyd Cynaliadwy/Bwyd Môr Cynaliadwy/Masnach Deg / Cymdeithas Bwytai Cynaliadwy (SRA) / TUCO / Cymdeithas y Pridd / Llwyddiannau mewn Gwobrau Allanol |
| Cynnal ymchwil mewn modd sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ein hamgylcheddau. | Ysgolion/RIS/Pwyllgor Moeseg / Strategaeth Ymchwil ac Arloesi |

# Mesurau Llwyddiant:

| Mesur | Llinell sylfaen | 2022/23 |
|---|---|---|
| Ceir targedau SMART yn Atodiad yr Adroddiadau Amgylchedd a Chynaliadwyedd Blynyddol fel rhan o ISO 14001:2015 ein System Rheoli Amgylcheddol.<br><br>Adroddir ar gynnydd targedau SMART i'r Pwyllgor Cynaliadwyedd bob tymor ac yn Adroddiad Blynyddol yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.<br><br>Adolygiad Allanol Blynyddol o ISO 14001:2015<br><br>Adolygiad archwilydd mewnol o system rheoli amgylcheddol pob maes bob blwyddyn gan staff hyfforddedig a gwirfoddolwyr myfyrwyr. | | |

***Mae'r ddogfen hon wedi'i chreu, ei hadolygu a'i chymeradwyo gan y Pwyllgor Cynaliadwyedd Ebrill 2020, sy'n cynnwys Partneriaethau Dirprwy Is-Ganghellor ac Ymgysylltu Allanol, Rheolwr Ymgysylltu â Chynaliadwyedd, Perchnogion Agweddau EMS, Undeb y Myfyrwyr – Llywydd yr SU a Swyddog Amgylcheddol Rhan-amser yr SU, Undebau Llafur a chynrychiolwyr Academaidd Ysgolion.***

***Cyflwynwyd y drafft i ymgynghoriadau'r Grwpiau Ffocws ar staff a gwirfoddolwyr myfyrwyr, wedi'i diweddaru a'i gymeradwyo ar y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar 3 Medi 2020.***

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wirfoddoli ar gyfer y Strategaeth / Polisi Cynaliadwyedd, cysylltwch â Sustainability@cardiffmet.ac.uk